Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Adroddiad Arolygu ar gyfer

21 Ffordd Garnedd

Y Felinheli

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

22/08/2023

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.
Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk
Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

21 Ffordd Garnedd

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal Gofal Heb Nyrsio i Oedolion
Darparwr Cofrestredig	Prestwood Residential Homes Ltd a CareTech Community Services Limited.
Lleoedd cofrestredig	2
Iaith y gwasanaeth	Saesneg
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	31 Ionawr 2023
A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru?	Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Crynodeb

Cyhoeddwyd pum hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth yn ystod yr arolygiad diwethaf mewn perthynas ag arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth; y ffaith nad oedd gan y staff gofal y sgiliau i ddiwallu anghenion y bobl. y ffaith nad oedd cynlluniau personol y bobl yn cael eu hadolygu'n ddigonol, a'r ffaith nad oedd y darparwr wedi cwblhau asesiad i sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i fod yn addas ar gyfer y bobl. At hynny, nodwyd maes i'w wella mewn perthynas â'r systemau ar gyfer rheoli meddyginiaeth. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fod pob maes i'w wella wedi cael ei gyflawni.

Mae'r bobl yn cael gofal gan staff gofal sy'n eu hadnabod yn dda ac, ar y cyfan, maent yn cael eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau llesiant. Mae'r bobl yn cael cyfleoedd i fynegi eu barn ac mae eu hawliau'n cael eu parchu. Mae'r bobl yn cymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau y maent yn eu mwynhau yn rheolaidd. Caiff eu hanghenion iechyd eu cefnogi a chânt eu hannog i wneud ymarfer corff rheolaidd ac i fwyta prydau iach.

Mae nifer o swyddi gwag ar gyfer staff gofal ar hyn o bryd, ac mae darparwr y gwasanaeth yn defnyddio staff gofal asiantaeth i sicrhau y caiff lefelau staffio eu cynnal. Nid oes rheolwr cofrestredig yn y cartref ar hyn o bryd, ac mae darparwr y gwasanaeth wedi trefnu i reolwyr o gartrefi eraill oruchwylio'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei redeg o ddydd i ddydd.

Mae'r cartref yn gartrefol, yn lân ac yn daclus, ac mae'n hybu llesiant y bobl. Mae ystafelloedd gwely'r bobl a'r ardaloedd cymunedol yn adlewyrchu eu dewisiadau unigol. Cynhelir gwiriadau iechyd a diogelwch yn rheolaidd.

Llesiant

Mae darparwr y gwasanaeth yn parchu hawliau a hawliadau'r bobl. Maent yn gallu mynegi eu dymuniadau, eu teimladau a'u barn i'r staff gofal a'r Unigolyn Cyfrifol. Dywedodd darparwr y gwasanaeth y bydd yn trefnu i'r bobl gael gwasanaeth eirioli. Mae'r bobl yn gwybod sut i wneud cwyn ac maent yn hyderus i fynegi unrhyw bryderon neu faterion.

Mae cynlluniau personol y bobl yn rhoi gwybodaeth ac arweiniad i'r staff gofal ar sut i ddiwallu anghenion y bobl. Mae'r staff gofal hefyd yn cael cyngor a hyfforddiant gan seicolegydd a gyflogir gan ddarparwr y gwasanaeth.

Caiff anghenion corfforol ac iechyd emosiynol y bobl eu diwallu a chânt wasanaethau gofal iechyd cyffredinol a chymorth mwy arbenigol, pan fo angen. Maent yn dilyn ffordd iach ac egnïol o fyw. Mae'r staff gofal yn annog y bobl i fwyta amrywiaeth o fwydydd i gefnogi deiet cytbwys. Mae'r bobl yn egnïol ac yn mwynhau treulio amser yn y gymuned. Mae'r staff gofal yn cefnogi'r bobl i ymweld â'u teuluoedd. Mae'r bobl yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau, ac mae'r staff gofal yn mynd gyda'r bobl ar deithiau a gwyliau.

Nodwyd gwelliant mewn perthynas â'r ffordd y mae'r rheolwyr yn goruchwylio'r gwasanaeth a chaiff atgyfeiriadau diogelu eu gwneud gan roi gwybod i'r asiantaethau statudol fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Mae'r staff gofal yn cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu ac maent yn gwybod sut i gadw'r bobl yn ddiogel a sut i gymryd camau os bydd ganddynt bryderon am eu llesiant. Mae gan y gwasanaeth bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith i sicrhau bod y bobl yn ddiogel.

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n cefnogi eu llesiant, Darperir gofal a chymorth mewn amgylchedd addas a chartrefol sy’n hyrwyddo ymdeimlad o berthyn y bobl. Caiff gwiriadau iechyd a diogelwch eu cynnal er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel.

Gofal a Chymorth

Mae gan y bobl gynlluniau personol sy'n rhoi gwybodaeth i'r staff gofal am sut i ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth unigol o ddydd i ddydd. Mae'r staff gofal yn gyfarwydd ag anghenion gofal a chymorth y bobl s sut y dylent gael eu diwallu, ac maent yn ymgynghori â nhw am y ffordd yr hoffent i'w gofal gael ei ddarparu. Mae adnodd ar gyfer asesiad y darparwr wedi'i lunio er mwyn mesur a yw'r gwasanaeth yn parhau i fod yn addas i ddiwallu anghenion y bobl. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus â'r gofal a'r cymorth y maent yn eu cael a'u bod yn hoffi'r staff gofal sy'n eu cefnogi.

Mae systemau ar waith i amddiffyn y bobl rhag niwed a chamdriniaeth. Mae pob aelod o'r staff gofal yn cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu. Mae'r staff gofal yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â rhoi gwybod am unrhyw bryderon a allai fod ganddynt am ddiogelwch y bobl y maent yn eu cefnogi. Mae asesiadau risg ar waith ar gyfer risgiau hysbys i iechyd a diogelwch y bobl, sy'n dangos sut y bydd y risgiau'n cael eu rheoli.

Caiff y bobl eu cefnogi i gymryd eu meddyginiaethau fel y'u rhagnodwyd, ac mae hyn yn helpu i reoli eu hiechyd. Mae trefniadau ar waith i roi meddyginiaeth yn ddiogel ac yn unol â phresgripsiynau'r bobl, ac mae'r staff yn ymgymryd â hyfforddiant ar feddyginiaethau.

Mae darparwr y gwasanaeth yn ymwybodol o *Mwy na geiriau, y fframwaith strategol olynol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol*, ac mae'n gwerthfawrogi'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Fodd bynnag, nid oes yr un aelod o staff gofal sy'n siarad Cymraeg yn rhugl wedi'i gyflogi yn y cartref ar hyn o bryd ac, felly, ni ellir darparu gwasanaeth i'r bobl yn Gymraeg. Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref ar hyn o bryd am gael eu gofal yn Saesneg.

Yr Amgylchedd

Fflat llawr cyntaf yw'r cartref, wedi'i leoli mewn ardal breswyl sy'n agos at siopau ac amwynderau hamdden lleol. Mae'r fflat yn darparu llety cyfforddus a glân sy'n cael ei gynnal a'i gadw yn dda, gydag ardal lolfa/cegin/bwyta agored, dwy ystafell wely ac ystafell ymolchi. Nid oes gardd, ond mae'r cartref wedi'i leoli mewn ardal rhannol wledig, sy'n cynnig cyfleoedd i fynd am dro ar hyd llwybrau golygfaol. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mynd am dro o amgylch yr ardal gyfagos yn rheolaidd. Mae ystafelloedd gwely'r bobl wedi'u personoli, ac maent yn gallu dewis y décor a sut yr hoffent i'r dodrefn gael ei drefnu yn eu hystafelloedd.

Mae'r cartref yn ddiogel, a chynhelir archwiliadau iechyd a diogelwch yn rheolaidd. Mae'r staff gofal hefyd yn cynnal gwiriadau amgylcheddol yn ddyddiol. Mae asesiad risg tân ar waith ac mae'r gwiriadau ar y cyfarpar tân a'r tystysgrifau yn dangos bod yr holl wiriadau tŷ yn gyfredol. Mae Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng (PEEPs) ar waith ar gyfer y bobl, a chaiff ymarferion tân a gwiriadau ar y systemau tân eu cynnal yn rheolaidd fel sy'n ofynnol. Mae'r staff gofal yn dilyn prosesau rheoli heintiau. Mae systemau addas ar waith i sicrhau y caiff meddyginiaeth ei storio a'i rhoi'n ddiogel. Mae'r uwch-reolwyr yn cwblhau gwiriadau ac yn archwilio gwybodaeth yn ystod eu hymweliadau â'r cartref, gan nodi'r gwelliannau sydd eu hangen i'r amgylchedd a'r tasgau cynnal a chadw y mae angen eu cyflawni.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r datganiad o ddiben yn disgrifio'r llety sydd ar gael, y broses atgyfeirio a derbyn, a'r gofal a'r cymorth sydd ar gael yn gywir. Mae canllaw'r bobl ar y gwasanaeth yn rhoi gwybodaeth berthnasol am y gofal a'r cymorth y dylai'r bobl ddisgwyl eu cael.

Nid oes rheolwr wedi'i gyflogi yn y cartref ar hyn o bryd. Mae darparwr y gwasanaeth wedi trefnu cymorth rheoli gan uwch-reolwr a rheolwyr o gartrefi eraill, ac mae hyn wedi mynd i'r afael â'r meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf. Mae'r cofnodion yn dangos bod amlder y cyfarfodydd goruchwylio â'r staff gofal wedi gwella, a'u bod yn cynnwys trafodaethau am eu harferion ac anghenion y bobl y maent yn gofalu amdanynt. Mae'r cyfarfodydd tîm yn dangos bod trafodaethau wedi'u cynnal am sut y gall y staff gofal gefnogi'r bobl. Mae darparwr y gwasanaeth wedi trefnu i reolwr adolygu cofnodion ac arsylwi ar ymarfer y staff gofal, ac mae'r staff gofal wedi cwblhau asesiadau ymwybyddiaeth o urddas.

Mae'r gwasanaeth wedi wynebu cyfnod heriol yn ddiweddar am fod nifer o swyddi gwag yn y tîm staff gofal o ganlyniad i staff yn gadael. Mae'r staff gofal parhaol wedi gweithio shifftiau ychwanegol a defnyddir staff gofal asiantaeth i lenwi bylchau. Mae staff gofal newydd eu penodi yn destun gwiriadau recriwtio manwl, ac mae darparwr y gwasanaeth hefyd yn cynnal gwiriadau ar weithwyr asiantaeth. Mae cynllun sefydlu ar waith ar gyfer staff gofal newydd, a darperir Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan iddynt ei gwblhau yn ystod eu cyfnod prawf. Mae hyfforddiant gorfodol ac arbenigol yn sicrhau bod staff gofal newydd a pharhaol yn meithrin eu sgiliau a'u gwybodaeth i ddiwallu anghenion gofal a chymorth y bobl.

Mae gan ddarparwr y gwasanaeth systemau sicrhau ansawdd ar waith i fonitro'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei weithredu. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau ac yn adrodd ar ei ganfyddiadau. Mae'r bobl yn adnabod yr Unigolyn Cyfrifol a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn siarad ag ef ac yn codi materion os oes angen. Mae'r Unigolyn Cyfrifol wedi cwblhau adolygiad o ansawdd y gofal ac wedi paratoi adroddiad manwl ar y canfyddiadau.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio	
Statws	**Ystyr pob un**
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G
16	Pan gaiff y cynlluniau personol eu hadolygu, ni chânt eu diwygio neu eu datblygu i adlewyrchu newidiadau i anghenion gofal a chymorth yr unigolyn a'i ganlyniadau personol. Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth sicrhau bod y cynlluniau yn cynnwys digon o wybodaeth am anghenion yr unigolyn, a'r graddau y mae wedi gallu cyflawni ei ganlyniadau personol. Dylid cynnal adolygiadau mewn ymgynghoriad â'r unigolion.	Cyflawnwyd
18	Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi cwblhau asesiad y darparwr. Rhaid i ddarparwr y gwasanaeth gwblhau asesiad darparwr pan fydd newid sylweddol yn anghenion person a phan na fydd y cynllun personol	Cyflawnwyd

	yn cefnogi'r person i gyflawni ei ganlyniadau personol.	
73	Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi ymweld â'r cartref mor aml ag sy'n ofynnol.	Cyflawnwyd
66	Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn dda ac yn cydymffurfio â'r rheoliadau.	Cyflawnwyd
36	Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi sicrhau bod y bobl yn cael eu cefnogi gan staff gofal sydd â'r wybodaeth, y cymhwysedd, y sgiliau a'r cymwysterau i ddarparu'r lefelau gofal a chymorth sy'n ofynnol i'w alluogi i gyflawni ei ganlyniadau personol.	Cyflawnwyd

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G
58	Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi sicrhau bod systemau effeithiol ar waith i roi meddyginiaeth yn ddiogel.	Cyflawnwyd

A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

Dyddiad Cyhoeddi 15/11/2023